HYDREF 2023
RHIF 27
ubc.cymru

UBC
BUW

Y Negesydd

Anturiaethau SENT Norwy

Croesi Moroedd: Stori Nela a Jonathan

Newyddion UBC

a mwy...

CYNNWYS

RHIFYN 27

1 Clawr

2 Gair Golygyddol

3 Cenhadaeth: SENT Norwy

4 Croesi Moroedd: Stori Nela a Jonathan

5 Gŵyl Caersalem

6 Newyddion UBC

7 Newyddion ar draws y byd

8 Dod i adnabod... Denis Young

Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater

GAIR golygyddol

HYDREF 2023

Cyfarchion o'r Llwyfan! *Mae'n hyfrydwch gennyf gyflwyno'r rhifyn diweddaraf o'r Negesydd, sydd o dan ofal ein Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu Digidol newydd, Sioned Graves. Ar ran darllenwyr y Negesydd estynnwn groeso cynnes iddi! Cychwynodd Sioned yn y swydd ym mis Awst eleni ac rydym eisoes yn falch iawn o'i chyfraniad i waith y tîm. Gadewch i Sioned gyflwyno'i hun...*

Mae'n fraint golygu'r Negesydd am y tro cyntaf! Ymunais i â thîm UBC ym mis Awst, ar ôl i gyfarfod annisgwyl ddod â'r swydd hwn i'm sylw. Ar ôl peth gwrthryfela (doeddwn i ddim am ddilyn ôl troed brawdol!), ildiais i i'r synnwyr fod Duw yn fy ngalw i yn bersonol i **ddychwelyd i Gymru** ac i ymuno â'i waith cenhadol yma.

Er i mi gael fy magu yng Nghaerdydd (a threulio peth amser yn Sir Benfro!), bûm i yn Durham dros y blynyddoedd diwethaf, yn gweithio gyda mudiad gweddi, addoli, a chenhadaeth. Roedd hi'n gyffrous cymryd rhan mewn cenhadaeth yn y cyfnod hwn, gan gynnwys 24 diwrnod o addoli ar y strydoedd yn Durham, a thaith genhadol i Fethlehem. Gwelais ffrwyth anhygoel gweddi yn y profiadau hyn, hyd yn oed yn wyneb poen dwfn. Profais i'r un peth yng Nghymru eleni pan oeddwn i'n rhan o dîm eiriol yng ngwŷl Llanw. Gwelson ni'r Ysbryd Glân yn symud mewn ffyrdd ryfeddol ac yn cyffwrdd â chalonnau yn ddwfn.

O ganlyniad i'r profiadau hyn, rydw i yn argyhoeddedig bod **gweddi yn bwerus** ac yn gwbl werth chweil! Mae'n anogaeth fawr gweld ffrwyth gweddi yn y rhifyn hwn – stori ryfeddol Jonathan a Nela yn Ninbych-y-Pysgod (t.4), y synnwyr o 'Dduw ar waith' yn ein cynadleddau (t.6), ac hanes Denis Young (t.8). Mae'r gwahoddiad i ni i gyd yn atseinio o'r straeon hyn, o dystiolaeth y saint ar hyd yr oesoedd, a **gwahoddiad Iesu** sydd yn ein caru: *'Ond pan fyddi di'n gweddïo, dos i mewn i'th ystafell, ac wedi cau dy ddrws gweddïa ar dy Dad sydd yn y dirgel...'* (Math 6:6). Mae Duw yn ein caru gymaint, ac eisiau gweithio yn ein bywydau mewn ffyrdd prydferth, ac yn bwerus yn y byd! Beth am i ni ail-ddarganfod y 'powerhouse' hwn eto (t.8), a gweld beth ddigwyddith yng Nghymru, a thu hwnt?

Pob bendith i chi,

Parch. Judith Morris *(Ysgrifennydd Cyffredinol)*
Sioned Graves (Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu)

CENHADAETH SENT '23

Simeon Baker sydd yn rhannu ei brofiadau o gynhadledd SENT 2023 yn Norwy...

Ar ôl dechrau yn gynnar ar y 5ed o Orffennaf, teithiodd tri Gweinidog 'ifanc' i faes awyr Caerdydd er mwyn cynrychioli Undeb Bedyddwyr Cymru mewn cynhadledd genhadaeth o'r enw SENT 2023. Cynhaliwyd y gynhadledd yn Stavanger, Norwy, ac fe wnaeth trefnwyr y gynhadledd, Ffederasiwn y Bedyddwyr Ewropeaidd (EBF) annog Undebau oedd yn bartneriaid i anfon arweinwyr iau i gymryd rhan.

Fe wnaeth Siân Elin Thomas (Crymych), Tim Moody (Risca) a Hannah Smethurst (Caernarfon), a'r llai-nag-ifanc Simeon Baker ddechrau taith a fyddai'n dod yn antur! O ganlyniad i'r stormydd gwaethaf o fewn cofnod yn Amsterdam, fe gaewyd y maes awyr a chawson ni ein oedi gan 24 awr. Serch hynny, cyrhaeddon ni Norwy ychydig yn flinedig ond yn awyddus i ddysgu'r cyfan oll allen ni.

Fe wnaeth y rhaglen gynnig profiad cyfoethog o addoliad, siaradwyr a thrafodaethau seminar. Rhai o'r uchafbwyntiau oedd: addoliad a arweiniwyd gan ffrindiau o Estonia, y 'Cogydd-weinidog' Iseldireg a baratôdd pryd o fwyd tra'n siarad am sut mae e'n coginio i rannu cariad Duw; a'r eglwys fach a dyfodd trwy groesawu mudwyr fel ffrindiau. Ar ôl 500 diwrnod o ryfel yn Wcrain, roedd hi'n cyffwrdd i'r byw i glywed am eglwysi newydd yn cael eu plannu yn eu gwlad, ac yn ein hatgoffa o'n galwad i fod yn ffyddlon ymhob sefyllfa.

> *Roedd hi'n cyffwrdd i'r byw i glywed am eglwysi newydd yn cael eu plannu yn Wcráin*

Moment cofiadwy i bob un ohonom ni oedd pan alwyd ar y genhedlaeth iau i sefyll ac i dderbyn gweddi gan y sawl a fuodd yn gweini am nifer o flynyddoedd. Mewn ymateb, fe wnaeth y genhedlaeth iau ofyn i'r rhai hŷn i rannu eu doethineb a'u profiad, er mwyn i ni, gyda'n gilydd, gael ein hanfon i fyd Duw.

> **Galwyd ar y genhedlaeth iau i sefyll**

Roedd hi'n foment balch gweld cynrychiolwyr o Gymru yn sefyll ymhlith grŵp o bobl a gasglwyd o dros gyfandir Ewrop i gyd. Fe wnaeth pob un ohonom ei chyfri hi'n anrhydedd i fod yno, ac rydym ni'n ddiolchgar i'r Undeb am eu cefnogaeth a'r cyfle i fod yno.

Diolchwn i Dduw am deulu EBF, a gweddïwn drostyn nhw wrth iddyn nhw ymateb i sefyllfaoedd dyrys ar draws Ewrop a'r Dwyrain Canol ar hyn o bryd, gan gynnwys yn Israel / Gaza, Nagorno-Karabakh ac Wcráin. Gweddïwn 'deled Ei deyrnas' yn y rhanbarthau hyn, ac ar draws Ewrop.

CROESI MOROEDD

***Carwyn Graves** sydd yn adrodd stori anhygoel un eglwys a chwpl yn dilyn galwad Duw dros gefnforoedd...*

"Roedden ni'n gwybod nad oedden ni'n gallu fforddio gweinidog, ond fe benderfynon ni wyth mlynedd yn ôl i weddïo am un beth bynnag - i weddïo ar i Dduw wneud yr amhosibl! Ac ry'n ni wedi bod ar daith ers hynny," meddai Dave, diacon yn Eglwys Deer Park, Dinbych-y-Pysgod, gyda gwên.

Mae Deer Park wedi bod yn weddol unigryw erioed, gyda gweinidogaeth yn ystod yr haf i bobl ar eu gwyliau ac adeilad Gothig trawiadol swmpus. Ond er gwaethaf gweinidogaeth ffrwythlon, yn y blynyddoedd diwethaf roedd yr aelodaeth wedi gostwng i ffigyrau sengl am y tro cyntaf a doedd dim gweithgareddau canol wythnos ar ôl. Roedd pethau wedi mynd mor heriol fel bod sgyrsiau yn dechrau am ddyfodol yr eglwys.

Ein hymateb oedd: *"Ydy Cymru yn faes cenhadol erbyn hyn?!"*

Tua'r un pryd, roedd cwpl Ffilipino-Seisnig filoedd o filltiroedd i ffwrdd yn yr Unol Daleithiau yn ymweld â chynhadledd Gristnogol wrth iddynt archwilio i'r hyn roedden nhw'n credu oedd yn alwad i genhadaeth yn Ne neu Ganol America.

"Cawson ni sgwrs gyda Foursquare Missions am ein awydd i fynd i'r faes genhadol," eglurodd Jonathan. "Fe ofynnon nhw, 'Ydych chi erioed wedi ystyried gweinidogaethu mewn eglwys yng Nghymru?' Ein hymateb oedd 'Na'n wir – ydy Cymru yn faes cenhadol erbyn hyn?!'

Ond po fwyaf roedden nhw'n ystyried, yn gweddïo ac yn ymchwilio iddo, po fwyaf yr oedd hi'n ymddangos bod Duw wedi eu paratoi ar gyfer hynny'n union. A phan ddaethon nhw i Gymru yn 2019, roedden nhw'n teimlo'n gartrefol yn syth.

Ym mis Rhagfyr 2020, comisiynwyd Jonathan a Nela fel cenhadon i Gymru gan eu heglwys yng Nghaliffornia, ond doedden nhw ddim yn gwybod i ble yn union yr ân nhw. Yn ystod y gwasanaeth, cafodd Nela weledigaeth annisgwyl o'r môr. Ym mis Mawrth 2021, cafodd hi weledigaeth arall o'r môr wrth iddi hi weddïo. Cafodd hi hefyd **Salm 29 adnod 3** sy'n sôn am y môr - ac arwyddair Dinbych-y-pysgod fel tref yw'r môr

Cadarnhawyd hyn ymhellach gan amgylchiadau a geiriau proffwydol gan eraill. Cyrhaeddon nhw

Cafodd Nela weledigaeth annisgwyl o'r môr

Gymru yn haf 2021. Ar yr un pryd, roedd Dave - un o ddiaconiaid Deer Park - wedi clywed am ddyfodiad Jonathan a Nela yn Sir Benfro a'u gwahodd i ddod i gwrdd â'r eglwys. Blodeuodd y berthynas, gyda

Jonathan yn sefydlu sesiwn wythnosol i bobl hŷn i gael cymorth gyda'u hanghenion TG, gan ddechrau meithrin perthynas â'r gymuned.

“Felly gwelsom ni Dduw yn gwneud yr amhosib!' cadarnha Dave, "Ac fe ddaeth yr aelodaeth i bleidleisio'n unfrydol o blaid bod Jonathan a Nela yn dod yma fel bugeiliaid, a hynny yn gadarnhad pellach. Mae Duw wedi troi'r sefyllfa ar ei phen – mae gennym ni weithgareddau cenhadol yn wythnosol erbyn hyn, a gweinidogion yn dod i weithio yma'n llawn amser gyda ni. Mae'r cyfan wedi ei adeiladu ar weddi.”

> “Mae’r cyfan wedi ei adeiladu ar weddi”

Cafodd Jonathan a Nela eu sefydlu fel gweinidogion mewn gwasanaeth llawn ffydd yn Deer Park ar ddydd Sadwrn 25ain Chwefror 2023. Ers eu sefydlu, maen nhw wedi gweld niferoedd yn codi, gyda 20-25 o bobl yn dod i wasanaethau Sul dros yr haf. Cawsant hefyd lawenydd yn croesawu aelod newydd i’r eglwys, a dechreuwyd nifer o weinidogaethau a mentrau cenhadol newydd lleol fewn yr eglwys. Mae’r eglwys yn teimlo’n llawn bywyd! Maen nhw hefyd yn gweddïo am ffyrdd i gyrraedd cenedlaethau iau, ac maen nhw eisiau cadw gweddi yn sylfaen yn yr eglwys.

***Beth am i ni weddïo** dros Deer Park, Nela a Jonathan wrth iddyn nhw fentro ar yr antur ffydd hon yn Ninbych-y-PYsgod!*

Gŵyl CAERSALEM

Bu cyfle i eglwys Caersalem ddod at ei gilydd mewn ffordd arbennig dros yr haf. Dyma argraffiadau **Hannah Smethurst,** fu yno...

Daeth Gorffennaf y 14eg gyda chyffro mawr ymhlith teulu eglwys Caersalem, gyda ‘Gŵyl Caersalem’ yn dychwelyd! Penwythnos ydoedd wedi ei gynnal yn arbennig er mwyn i deulu’r capel allu dod at ei gilydd i gael amser yng nghwmni ei gilydd y tu allan i adeilad y capel. Er gwaetha’ tywydd hafaidd nodweddiadol i Gymru, daeth criw gyda’u pebyll a’u cotiau glaw i fwynhau ar y nos Sadwrn. Un o uchafbwyntiau’r penwythnos oedd y bore Sul pan gafodd dau o deulu Caersalem eu bedyddio yn yr Afon Seiont.

prydiau bwyd, crefftau, mynd am dro, adeiladu a rasio rafftiau ar yr Afon Seiont, noson i gyfweld a chlywed tystiolaeth un o’n haelodau, a thwmpath

Roedd hi’n fraint arbennig i dystio i’w ffydd a’r gwaith mae Duw yn ei wneud yn eu bywydau. Roedd hi wir yn benwythnos i’w gofio. Diolch i Dduw amdano, a’r fraint o gael bod yn rhan o deulu’r eglwys.

***Gweddïwn bob bendith ar deulu Caersalem**, yn enwedig wrth iddyn nhw barhau i alaru colled **Phil Wyman** yr haf hwn, a welwyd yn annwyl gan bawb, ac yn rhan bwysig o deulu’r eglwys.*

NEWYDDION ar draws

UBC BUW

Cyflwyno Llywyddion 23/24

Mr Bill Davies
Llywydd yr Adran Gymraeg

Rydyn ni'n falch iawn i gyflwyno Mr Bill Davies, a ddaeth yn llywydd dros yr Adran Gymraeg ychydig fisoedd yn ôl. Brodor o Borthmadog yw Bill. Cafodd Bill yrfa amrywiol, yn gweithio gydag amryw o sefydliadau, megis Dŵr Cymru ym Mhorth Talbot, Cyngor Gwynedd, ac yn olaf Gyrfa Cymru yn y Gogledd-Ddwyrain. Nawr mae Bill wedi ymsefydlu yng Nghaerdydd, ac yn ddiacon yng nghapel Tabernacl, yr Ais. Yn ei anerchiad llywyddol, pwysleisiodd mai **Iesu byw yw ein Iesu ni**, ac anogodd ni i gadw'r 'waw ffactor' yn ein bywydau!

Parch. Tim Moody
Llywydd yr Adran Ddi-Gymraeg

Sefydlwyd Tim yn Llywydd ar yr Adran Ddi-Gymraeg eleni. O Lundain y mae Tim yn hanu yn wreiddiol, ond fe'i magwyd yn Weston-Super-Mare a Cheddar. Bu Tim yn weithiwr ieuenctid ac yn hyfforddwr chwaraeon, cyn cael ei alw i'r weinidogaeth lawn amser yn Moriah Rhisga. Mae gan Tim fwrdwn dros **blant a phobl ifanc,** ac mae'n ein hannog i ystyried sut y gallwn fel eglwysi fod yn fannau croesawgar ac addas i bobl o bob oedran.

Cynadleddau'r Haf

MOMENTUM '23

adroddiad gan Simeon Baker

'Pŵer Stori' oedd y thema a ddaeth â bron i 200 o Fedyddwyr o'r Adran Saesneg at ei gilydd o Gymru eleni, i glywed straeon am **Dduw ar waith** ar draws Gymru. Doedd dim prinder o gyfleoedd i rannu'r straeon hynny gyda'n gilydd, boed y rheiny o'r gorffennol, y presennol, neu'r dyfodol wrth i ni ystyried sut orau i ddefnyddio technoleg i rannu'r newyddion da ymhell ac agos.

Daeth Adrian a Bridget Plass, ein siaradwyr gwâdd, â blynyddoedd o'u profiad aton ni, yn rhannu straeon gyda gonestrwydd, hiwmor, a duwioldeb. Roedd hi'n galonol i weld **plant a phobl ifanc** yn cymryd rhan yn y gweithgareddau yn ystod y dydd, tra bod hefyd rhai sesiynau mwy swmpus yn ystyried pa mor dda yr ydyn ni'n adnabod stori'r Beibl. Fe wnaeth ein ffrindiau o BMS World Mission ein helpu ni i weld Duw ar waith ar draws y byd ac fe gymeron ni daith o gwmpas Gymru i glywed rhai o'r straeon am yr hyn mae Duw yn ei wneud yn ein plith.

At ei gilydd, roedd hi'n ddiwrnod llawen, a nifer o bobl yn dod ynghŷd, a chawson ni ein hatgoffa yr. bwerus ein bod ni, hefyd, yn rhan o'i Stori Fawr Ef. Cadwch y **dyddiad ar gyfer y Momentum nesaf: Dydd Sadwrn, 8fed o Fehefin 2024.**

Cyfarfodydd Undeb 2023

adroddiad gan Bonni Davies

"Pwy Yw Hwn?" oedd thema'r gynhadledd yn y Tabernacl, Caerdydd ar 23-24 Mehefin eleni. Yn ei anerchiad gofynnodd Bill Davies, y Llywydd newydd, tybed a oeddem fel aelodau o'n heglwysi wedi colli'r **'Waw Ffactor'** o wybod mai Mab Duw **oedd** ac **yw'r** Iesu? Os oedd unrhyw un yn amau hynny, yna mi fyddai wedi dychwelyd adre' o Undeb 2023 wedi'i galonogi a'i gadarnhau yn y gwirionedd hwnnw, a bod Duw ar waith yng Nghymru heddiw! Daeth y gwirionedd hwn yn amlwg yn y Cyfarfod Busnes dan y teitl "Buddsoddi ar gyfer Yfory". Cafwyd cyfle i glywed am weithgarwch yr Undeb, a phob un adroddiad yn dyst fod achos Crist yn parhau. Braf oedd clywed hefyd am weinidogion newydd, effaith hyfforddiant cenhadol Forge ar ein heglwysi, a'r modd yr oedd y Gorfforaeth bellach yn gwerthuso pob adeilad capel er mwyn gwneud y gorau o'n hadnoddau, ac ystyried eu gwerth at **genhadaeth y dyfodol.** Yn y Sesiwn Genhadol dan ofal Simeon Baker, hyfrydwch pur oedd gwrando ar Paula Hughes, Danni Worley, a Deb Stammers, yn disgrifio sut yr oedd llaw Duw i'w weld yn amlwg yn Salem Tonteg, Dolgellau a Chymanfa Môn. Eu dull hwy o genhadu oedd gwrando ar lais Duw, creu cysylltiadau a sgwrsio gyda phobl yn eu cynefin a'u cymunedau. Mae Duw ar waith!

Edrychwn ymlaen at gyfarfodydd Undeb 2024: 23ain-26ain o Fehefin.

Newidiadau Staff

Rydyn ni'n falch o groesawu **Sioned Graves** fel ein Swyddog Cenhadaeth a Chyfathrebu newydd, ers mist Awst 2023. Byddwn ni'n drist i ddweud hwyl fawr i **Gwen Lye-Phillips** (am y tro!) wrth iddi ddechrau ei chyfnod mamolaeth. Gweddïwn dros y ddwy ohonyn nhw wrth iddyn nhw ddechrau anturiaethau newydd eleni!

Apêl Talentau Gobaith

Rydyn ni'n gyffrous ein bod wedi lawnsio ein hapêl newydd ar gyfer 2023/24!

Mae apêl 'Talentau Gobaith' yn cefnogi gwaith **Cymorth Cristnogol yn Zimbabwe** gyda phrosiect BRACT (Building Resilience through improving the Absorptive and Adaptive Capacity for Transformation of at-risk communities). Mae BRACT yn helpu teuluoedd i ddablygu gwytnwch yn erbyn heriau newid hinsawdd gyda thechnegau ffermio newydd, ac amrywio ffynonellau incwm. Rydym ni hefyd yn cefnogi gwaith sydd yn ffocysu ar arfogi menywod.

NEWYDDION
ar draws y byd

Ewch at ein wefan i ddarganfod mwy, ac i ddod o hyd i **adnoddau** ar gyfer eglwysi / grwpiau plant ac ieuenctid, yn ogystal â chyfarwyddiadau am sut i roi at yr apêl:

ubc.cymru/cenhadaeth-cefnogol/apeliadau

Dod i adnabod...
Denis Young

Cawson ni'r pleser yn ddiweddar o glywed rhai o'r hanesion diddorol arweiniodd y Parch. Denis Young at ffydd yn ddyn ifanc a dod yn weinidog 69 o flynyddoedd yn ôl! Dyma beth o'i hanes...

Sut ddaethoch chi i ffydd yn Iesu yn gyntaf?

Cefais fagwraeth fel y rhan fwyaf yn y pentref, gan gynnwys mynd i'r capel ar y Sul. Mynychu capel y Bedyddwyr, Bethel Drefach-Felindre oedd ein teulu ni, a byddwn yn ffyddlon i'r oedfaon. Ysgol eglwys oedd ysgol Drefach hefyd ac yna yr âi plant y pentref. 'Roedd rhaid adrodd Gweddi'r Arglwydd, y deg gorchymyn a chredo'r Apostolion! Wedi cyrraedd tua'r 15 oed roedd yn arferiad cael eich bedyddio yn Bethel er mwyn dod yn aelodau a dyna ddigwyddodd i nifer ohonom. Ond trist yw cyfaddef nad oedd gennyf brofiad bywydol o'r Arglwydd. Trefn ac arferiad oedd. 'Roeddwn yn barchus grefyddol, ond i ddyfynnu Gwenallt: 'Gwae i ni wybod y geiriau heb adnabod y Gair'.

Mae'n rhaid bod rhywbeth wedi newid i chi fod yn weinidog wedyn!! Beth newidiodd?

Bu'n rhaid gadael Ysgol Ramadeg Llandysul gan fod angen help gartref, a'm tad wedi marw. Yn 15 oed felly dechreuais weithio mewn siop groser, ac wedyn gweithio'r nos ar y rheilffordd. Dyma gyfnod yr Ail Ryfel Byd ac yn hytrach na chael fy ngorfodi i ymuno â'r lluoedd arfog fel fy mrodyr cefais fy anfon i Fryste i weithio gan fod cynnal y trenau yn waith 'o bwysigrwydd cenedlaethol'. Profiad chwithig oedd symud o gefn gwlad i ganol y 'blacowt' a bomio yn y ddinas! Trugaredd oedd cael fy anfon nôl i Gymru. Yng Nghaerfyrddin bu trobwynt mawr. Cefais fy rhoi i weithio fel taniwr ar yr 'engines mawr' gyda gyrrwr o'r enw Bill Thomas. Fe sylweddolais fod na rywbeth yn wahanol ynddo. Byddai'n tynnu ei gap ac yn diolch cyn bwyta'i frechdanau yn y sied gyda'r gweithwyr! 'Doedd arno ddim cywilydd o'i gred. Soniai a chanai yn naturiol am ei Waredwr yr Arglwydd Iesu Grist. Ond cau fy nghlustiau wnawn i. Roedd gan Dduw gynlluniau eraill ac yn y diwedd bu'n rhaid i mi ildio! Ar fy ngliniau yn fy ystafell wely yn Drefach, yn edifeiriol gofynnais am faddeuant am fod mor benstiff. Teimlais y 'maglau'n cael eu torri'n a'm traed yn gwbl rydd gan fod yr Iesu wedi marw ar y groes yn fy lle ac wedi atgyfodi i'm cyfiawnhau!

Wedyn, bu cyfnod newydd. Gadewais y rheilffordd a chael fy apwyntio'n is-reolwr i Edward Davies, Bedyddiwr, yn siop Star Aberteifi. Dyma gyfnod coleg profiad, yn wir cael prawf ar fy ffydd a dysgu pwyso ar yr Arglwydd a marw' i'r hunan! Yn raddol wedyn bu'r Arglwydd yn fy ngalw i bregethu. Mae hanes fy nhaith i bregethu yn saga, ond yn y man fe gyrhaeddais Goleg y Bedyddwyr fel ymgeisydd i'r weinidogaeth. Ordeiniwyd fi i gyflawn waith y weinidogaeth yn eglwys Blaenycwm, Rhondda Fawr ym mis Medi 1954 (69 mlynedd yn ôl)!

Beth yw'r gwersi mwyaf ddysgoch chi dros eich bywyd a'ch gweinidogaeth?

Un o'r gwersi pwysicaf i mi yw pwysigrwydd gweddi. Cynhelid cwrdd gweddi wythnosol ym mhob eglwys y bûm ynddi. Dyma'r 'power-house' yn ôl un hen aelod ym Mlaenycwm! Peth arall sy'n wir iawn yw mai gweld ein gilydd yn unig 'rydyn ni a bod bob math o broblemau yn aml ynghudd gan bobl felly mae angen ysbryd cariad ac 'na fernwch fel na'ch barner'. Ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol mae'r cyfan yn llaw'r Duw ffyddlon a thrugarog sydd wedi rhoi llythyr cariad i ni sef ei Air sanctaidd. Bydd y Gair ar gael i bob un a drws gweddi ar agor bob amser!